S4C

# Bwrdd S4C

Cyfarfod 476
13:00, 13 Mawrth 2025
Swyddfa Caernarfon

| **Cod Diwylliant S4C** | |
|---|---|
| Pwrpas: | Dangos ein byd drwy'r Gymraeg |
| Cenhadaeth: | Ysbrydoli, diddanu ac adlewyrchu Cymru heddiw gyda chynnwys gwych i bawb |
| Gwerthoedd: | 1. Ar dy orau: Perfformio i'r safon uchaf gan barchu'n gilydd<br>2. Cer amdani: Arweinyddiaeth, goresgyn heriau a hybu dysgu – gwthio ffiniau i ragori<br>3. Dathlu pawb: Gwerthfawrogi eraill, y daith, ac adborth<br>4. Balch o S4C: Hyrwyddo ein cenhadaeth a rhannu ein llwyddiannau |

## COFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Guto Bebb [GB], Cadeirydd y Bwrdd
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys

Eraill oedd yn bresennol:

- Nadine Beaton [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (rhithiol)
- Manon Edwards Ahir [MEA], Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata
- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd Bwrdd S4C
- Mali Williams [MW], Pennaeth Materion Cyhoeddus (rhithiol)
- Sara Peacock [SP], Pennaeth Tim Strategol (rhithiol)
- Iestyn Morris [IM], Pennaeth Cyfreithiol (rhithiol)
- Sharon Winogorski [ShW], Prif Swyddog Cyllid (rhithiol)
- Dafydd Franklin [DF], Uwch Gyfrifydd (rhithiol)
- Sara Maredudd Jones [SMJ], Swyddog Cyfathrebu (Y Wasg)

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Adele Gritten [AG], Aelod Anweithredol
- Chris Jones [CJ], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Croesawyd LlI i'w cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd ers cychwyn ei swydd ar ddydd Llun fel Prif Swyddog Cynnwys.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Nododd GB ei hun bod Undeb Amaethwyr Cymru mewn trafodaethau gyda chwmni Axiom ynghylch hysbysebu ar S4C. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd**<br><br>Gwerthusiadau blynyddol | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd GB wedi cyfarfod gyda GE i gytuno amcanion ar gyfer ei gyfnod prawf fel Prif Weithredwr.<br><br>Nododd GB ei fod wedi cwblhau gwerthusiad GP gan ddiolch iddo am ei gefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd dros dro.<br><br><u>Aelodaeth y Bwrdd</u><br><br>Mae'r Bwrdd dal yn aros am ddiweddariad gan y DCMS wedi iddynt gyfweld ymgeiswyr ar gyfer y gadeiryddiaeth ac aelodaeth anweithredol y Bwrdd ganol Chwefror. | |
| 3. | [Ymunodd SP â'r cyfarfod]<br><br>**Y Tîm Strategol**<br><br>Wrth gyflwyno ei sleidiau esboniodd SP bod y cyflwyniad yn y cyfarfod Bwrdd diwethaf wedi bod ynghylch y Strategaeth Addysg ond heddiw bod hi'n ffocysu ar y Tîm Strategol newydd. Nododd bod Pwrpas Cymdeithasol S4C wedi ei gytuno gan y Bwrdd eisoes a bod y tîm yn gweithio ar ei sail.<br><br>Blaenoriaeth gyntaf SP oedd sefydlu tîm oedd yn gweithio ar draws pob elfen o'i gyfrifoldeb yn hytrach na dim ond ar feysydd unigol, ac roedd yn ffocysu ar roi'r systemau iawn mewn lle er mwyn monitro a hwyluso'r adborth.<br><br>Cadarnhaodd GE taw adroddiad ar le'r oedd y tîm arni ar hyn o bryd oedd hwn. Byddai angen aelod newydd i'r tîm strategol er mwyn cyflawni'r amcanion.<br><br>Roedd DLP yn croesawu'r cyflwyniad a gofynnodd sut fyddai'n clymu mewn gyda'r strategaeth gorfforaethol newydd o ran cynhwysiant, amrywiaeth a chydraddoldeb? Roedd GE yn rhagweld y byddai tri philer i'r strategaeth newydd – cynnwys, cyhoeddi, a chyfraniad economaidd a chymdeithasol S4C. Awgrymodd taw i'r piler olaf y byddai hyn yn ffitio.<br><br>Roedd SuD ei bod wedi bod mewn cyfarfod gyda'r NAO yn Llundain a nododd bod ystyried cynaladwyedd o fewn cyrff cyhoeddus yn mynd i fod yn rhan o'i archwiliadau yn y dyfodol.<br><br>[gadawodd SP y cyfarfod] | |
| 4. | [ymunodd IM a ShW â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad yr Uwch Dîm Arwain**<br><br>Cyflwynodd GE yr adroddiad, gydag aelodau eraill yr Uwch Dîm Arwain (UDA) yn cyflwyno'r elfennau oedd roedd ganddynt gyfrifoldeb drostynt. Wrth i GE gyflwyno'r adroddiad, nododd ei fwriad o fod yn fwy cryno yn unol â'r adborth o'r cyfarfod diwethaf. Serch hynny roedd adborth o holiadur effeithiolrwydd diweddar y Bwrdd yn mynegi bod angen cadw digon o ffocws ar faterion cynnwys, felly dyna'i fwriad yn y cyflwyniad.<br><br>Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad ar bynciau yn cynnwys: Cynnwys (uchafbwyntiau diweddar, y dashfwrdd misol diweddaraf, ac adborth y gynulleidfa); Cyfathrebu a Marchnata; Pobl a Diwylliant; Cyllid; Risg; ac S4C Masnachol.<br><br><u>Cynnwys</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd aelodau'r Bwrdd yn mwynhau Y Llais ac wedi nodi'r adborth positif gan y gwylwyr, yn enwedig y teimlad Cymreig i'r fformat.<br><br>Nodwyd hefyd i'r system newydd o bleidleisio ar-lein ar gyfer Cân i Gymru wedi bod yn llwyddiannus. Er bod ambell un wedi cwyno nad oedd modd pleidleisio dros y ffôn, nid oedd y niferoedd hyn yn sylweddol.<br><br><u>Ymwneud â rhanddeiliaid</u><br><br>Nododd GE ei fod ef a MW yn cynnal sesiwn yng Nghynhadledd Plaid Cymru yn Llandudno o fewn y pythefnos nesaf a bod trafodaethau ar y gweill ynglŷn â sesiwn debyg yn ystod cynhadledd Llafur ym mis Mehefin.<br><br>Holodd DLP os oedd bwletin rheolaidd yn mynd allan at y gwleidyddion yn cynnwys prif negeseuon S4C? Atebodd MW ei bod yn bwriadu ail-sefydlu'r arfer, o bosib bob chwarter. Roedd yn awyddus i deilwra'r negeseuon at bobl benodol.<br><br><u>Deallusrwydd Artiffisial (AI)</u><br><br>Nodwyd bod yr Uwch Dîm Arwain wedi dechrau edrych ar ddatblygu canllaw i'r sector ynghylch y defnydd o AI, a hefyd yn datblygu polisi ar ddefnydd mewnol o AI. Roedd gweithgor gyda chynrychiolwyr ar draws S4C yn cael ei sefydlu i weld beth oedd yn bosib yn fewnol gan chwanegu at yr hyn mae pobl yn ei wneud, yn hytrach na chymryd lle pobl. Awgrymodd LlI bod potensial i ddefnyddio AI i ychwanegu at yr elfennau creadigol a chynyddu ein gwerth am arian. | |
| <br><br>5. | [ymunodd DF a SMJ â'r cyfarfod]<br><br>**Y Fforwm Staff**<br><br>Ar ôl i GB groesawu DF a SMJ i'r cyfarfod, gwnaethant gyflwyno sleidiau oedd yn amlinellu Cefndir, Aelodaeth, Pwrpas a Gweithgareddau'r Fforwm Staff. Nodwyd bod y Fforwm Staff yn:<br>• Cyfarfod bob chwarter cyn mynychu cyfarfod gyda'r Uwch Dîm Arwain;<br>• Edrych i ddiwygio cylch gorchwyl y Fforwm; ac<br>• Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd parhaol, yn hytrach na chael aelod gwahanol o'r Fforwm yn ymgymryd â'r swyddogaethau hyn bob chwarter.<br><br>Holodd SuD am berthynas y Fforwm gyda'r undeb? Esboniodd DF wrth i'r Fforwm sefydlu ei hun roeddent yn ceisio bod yn glir gyda staff ynghylch y mathau o bethau dylid codi gyda'r fforwm a beth fyddai'n well codi gyda'r undeb.<br><br>Roedd DLP yn awyddus i wybod os oedd proses mewn lle ar gyfer codi pryderon sylweddol gyda'r UDA. Atebodd DF bod y fforwm yn cynrychioli holl staff ond os oedd gan unigolyn cwyn, anogir nhw i drafod gyda'i rheolwr llinell, aelod perthnasol o'r UDA neu'r Adran Pobl a Diwylliant. Nododd NB bod polisïau chwythu'r chwiban, a chwyno ar gael i aelodau staff S4C.<br><br>Cytunwyd bod y Fforwm Staff yn allweddol er mwyn sicrhau bod S4C yn gallu clywed lleisiau pawb yn effeithiol, hefyd yn adnodd gwerthfawr o bersbectif yr UDA. Mae'n cynnig cyfle i brofi gwahanol syniadau gyda thrawstoriad o staff, a chael trafodaeth agored. Roedd angen cydnabod bod gan yr aelodau swyddi o ddydd i ddydd, ond dal yn awyddus i geisio gwneud mwy.<br><br>[gadawodd DF a SMJ y cyfarfod] | |
| 6. | **Diweddariad ar adolygu'r Strategaeth** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrth i GE cyflwyno'r diweddariad, diolchodd i GP a MW am gychwyn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth gorfforaethol newydd ar ran yr Uwch Dîm Arwain.<br><br>Nododd MW taw mewn ffurf drafft oedd y dogfennau ar hyn o bryd, yn amlinellu gweledigaeth S4C ar gyfer 2030. Ychwanegodd GP mai esblygiad o'r strategaeth bresennol oedd hon, yn hytrach na newid ein cyfeiriad, a bod darlledwyr eraill ar yr un trywydd. Nodwyd hefyd bod rhaid sicrhau bod y Strategaeth yn fwy na geiriau gwag: trwy gael trafodaethau ynghylch manylder y dangosyddion i'w mabwysiadu, y ffordd o fesur ac adrodd ar gynnydd, a chynllun gwaith blynyddol yr UDA ar gyfer cyflawni'r Strategaeth.<br><br>Pwysleisiodd GE taw diweddaru'r Bwrdd ynghylch y gwaith oedd pwrpas y drafodaeth heddiw a bod yr UDA yn bwriadu cyflwyno dogfen fwy cyflawn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai. Ychwanegodd bod y strategaeth yma'n symlach ac yn haws i esbonio i bobl.<br><br>Roedd y Bwrdd yn unfrydol wrth ganmol y diweddariad ac yn gweld bod yn gyfle gwych i ail-ddatgan pwrpas S4C. Nododd SuD byddai'n dda gweld mwy ynghylch pwy ydyn ni yn y ddogfen derfynol.<br><br>Wrth drafod yr esblygiad i fod yn gyhoeddwr aml-lwyfan, esboniodd EM y bydd y gofynion o ran ein datganiad blynyddol o bolisi rhaglenni yn cynyddu yn sgil Deddf Cyfryngau 2024. Er mwyn cyflawni ein cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, bydd angen i'r datganiad ddweud sut mae S4C yn mynd i'w gyflawni ar draws ein holl wasanaethau – nid ar y gwasanaeth llinol yn unig.<br><br>Trafodwyd dyfodol y gwasanaeth llinol. Nodwyd y bydd gofynion 'rhaid cario a rhaid cynnig' yn parhau i fod mewn lle ar gyfer y gwasanaeth llinol tan i DTT ddod i ben, rhywbryd tua 2034, yn sgil dyfarnu'r amlblethau.<br><br>Eglurodd Lll bod ansicrwydd yn y sector ynghylch le i fuddsoddi, oherwydd bod ansicrwydd ynghylch le fydd pwyslais S4C o ran cynnwys aml-lwyfan (yn erbyn y llinol traddodiadol). Felly ar hyn o bryd maent yn ffocysu ar yr elfennau traddodiadol achos maent yn gwybod beth yw disgwyliadau S4C o ran hynny.<br><br>Holodd DLP os oedd awydd i redeg elfen o S4C fel brand ymgyrchu, byddai'n cydio mewn achos? Ymatebodd GE bod e'n werth gael sgwrs ar draws ein cynnwys, i weld beth fyddai'n bosib ar draws gwahanol genres.<br><br>**Penderfyniad: Ystyried ychwanegu mwy am hunaniaeth a phwrpas S4C ar gychwyn y strategaeth newydd.** | |
| 7. | **Ystyried gwerthusiad o effeithiolrwydd y Bwrdd**<br><br>Gwahoddwyd aelodau a mynychwyr y Bwrdd i gwblhau holiadur rhwng 12 Chwefror a 28 Chwefror 2025 er mwyn asesu effeithiolrwydd y Bwrdd. Derbyniwyd wyth ymateb, gan gynnwys pum aelod o'r Bwrdd (cyfradd ymateb o 71%).<br><br>Cyflwynodd GP ei adroddiad ar yr atebion a dderbyniwyd i'r holiadur, gan nodi eu bod yn gadarnhaol yn bennaf. Serch hynny, roedd yn ymddangos nad oedd y newidiadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adolygiad effeithiolrwydd llywodraethiant yn hydref 2024 wedi cael yr effaith disgwyliedig eto.<br><br>Awgrymwyd nifer o gamau y gellid eu cymryd mewn ymateb i'r adborth diweddaraf, gan gynnwys:<br>• Aelodau'r Bwrdd i dderbyn cyflwyniad i weithgareddau masnachol fel rhan o'r cynllun anwytho / hyfforddiant. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ail sefydlu'r Pwyllgor Cynnwys, os mai'r farn yw nad yw trafod materion Cynnwys yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ddigonol.<br>• Ystyried y sefyllfa ymhellach pan fydd y strategaeth gorfforaethol (a'r mesuryddion perthnasol) mewn lle, ac aelodau newydd wedi eu croesawu i'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: Cytunwyd i adolygu strwythur a chyfrifoldebau'r pwyllgorau unwaith y bydd yr aelodau anweithredol newydd wedi eu penodi, gan gynnwys ystyried ail-sefydlu'r Pwyllgor Cynnwys.** | |
| 8. | **Cynnydd ar gyflawni cynllun gwaith Darwin Gray**<br><br>Wrth gymeradwyo'r cynllun gweithredu mewn ymateb i adolygiad llywodraethu Darwin Gray yn hydref 2024, cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn derbyn diweddariad ar gynnydd ymhen chwe mis. Fodd bynnag, roedd GP am gyflwyno diweddariad cyn i'r aelodau anweithredol newydd ymuno â'r Bwrdd – er mwyn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar faterion strategol i'r dyfodol yn hytrach na digwyddiadau hanesyddol.<br><br>Roedd mwyafrif yr argymhellion wedi'u cyflawni, ac roedd amserlen glir ar gyfer cwblhau'r argymhellion sy'n weddill.<br><br>Holodd SuD beth oedd y bwriad nawr o ran yr UDA i ddatblygu cynllun i "werthuso ymgyrchoedd". Esboniodd GP y byddai hyn nawr yn rhan o'r gwaith o adolygu'r strategaeth, gosod mesuryddion a chytuno ar drefniadau adrodd. | |
| 9.<br><br>9.1. | **Adolygu'r Rheolau Sefydlog**<br><br>Fel rhan o gynllun gweithredu a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2024 yn dilyn adolygiad llywodraethu Capital Law, ymrwymwyd i adolygu Rheolau Sefydlog y Bwrdd. Mae'r adolygiad hwn bellach wedi'i gwblhau, gan ystyried argymhellion Darwin Gray ac arfer da mewn sefydliadau eraill.<br><br>Diolchodd GP i EM ac IM am eu mewnbwn yn ystod yr addoliad o'r Rheolau Sefydlog. Nododd ei fod hefyd wedi derbyn adborth gan Darwin Gray ers cylchredeg y gwaith papur i'r Bwrdd – roedd felly wedi rhannu sylwadau'r cyfreithwyr mewn adroddiad ar wahân.<br><br>Croesawyd y Rheolau Sefydlog diwygiedig, ac yn y drafodaeth fe gafwyd man awgrymiadau ynghylch diwygiadau pellach:<br>• Roedd DLP am wybod os ddylid ychwanegu rhywbeth safonol ynghylch cynllunio olyniaeth? Cytunodd GP i ystyried hyn ymhellach.<br>• Holwyd a oedd angen gwneud cyfeiriadau pellach yn sgil y cyfrifoldeb sydd yn awr ar y Bwrdd o ran atal aflonyddu rhywiol. Nodwyd bod gan S4C bolisi yn barod gyda throsolwg dros y polisi yn fater i'r Bwrdd. Ychwanegodd NB bod cynllun i ddarparu hyfforddiant i'r Bwrdd.<br><br>Yn ei hadborth, roedd Fflur Jones o gwmni Darwin Gray wedi awgrymu y dylid cael cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer 'amddiffyn' yn ogystal â 'chychwyn' a / neu 'setlo' achosion cyfreithio. Trafodwyd hyn, gan gydnabod na fyddai'n ymarferol i geisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer amddiffyn pob achos cyfreithiol (yn enwedig mewn perthynas â'n cynnwys) – ac ein bod yn arfer cymryd camau priodol i amddiffyn pob achos cyfreithiol. Yn sgil y drafodaeth, awgrymodd SuD ein bod yn ychwanegu geiriad i'r Rheolau Sefydlog i gadarnhau y byddai'r Pennaeth Cyfreithiol yn penderfynu a oes angen cymeradwyaeth y Bwrdd cyn cychwyn amddiffyn achos cyfreithiol, gan gymryd i ystyriaeth natur yr achos a diddordeb posib y Bwrdd ynddo. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cododd GB pwynt ynghylch cymal 5.9.2, gan nodi na allai S4C osod rhwymedigaeth ar yr Ysgrifennydd Gwladol o ran sut y gall benodi aelodau anweithredol i'r Bwrdd. Yn hytrach, gall S4C ond amlinellu sut y byddai'n gobeithio i broses o'r fath gael ei chynnal.<br><br>**Penderfyniad: Aelodau i ddanfon unrhyw mân ddiwygiadau pellach i'r Ysgrifennydd erbyn diwedd yr wythnos ganlynol.**<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig ar sail yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod, i ddod i rym ar 01 Ebrill 2025 neu cyn gynted â phosib wedi hynny, ar y ddealltwriaeth y bydd y canlynol yn cael eu hystyried ymhellach a'r geiriad perthnasol yn cael ei fireinio yn ôl yr angen:**<br>• **Ychwanegu cyfeiriad at gynllunio olyniaeth;**<br>• **Adolygu geiriad cymal 5.9.2 yn sgil adborth GB; a**<br>• **Holi IM i ddrafftio cymal addas i'w gynnwys yn y Rheolau Sefydlog ynghylch y Pennaeth Cyfreithiol yn penderfynu pryd mae angen cymeradwyaeth y Bwrdd cyn 'amddiffyn' achos cyfreithiol, er mwyn i GP drafod ymhellach gyda chwmni Darwin Gray.** | |
| 10. | **Adolygu cydnabyddiaeth yr aelodau anweithredol**<br><br>Amlinellodd GP y sefyllfa bresennol sef bod aelodau anweithredol y Bwrdd yn derbyn cydnabyddiaeth o £9,650 y flwyddyn, gyda disgwyl ymrwymiad o un diwrnod yr wythnos. Ni chynyddwyd y ffi ers 2009, ac mae lefel y gydnabyddiaeth yn sylweddol is na'r hyn a welir mewn penodiadau cyhoeddus cenedlaethol eraill.<br><br>Trafodwyd hyn gan yr aelodau, gan gydnabod bod yna resymau dilys dros ac yn erbyn gwneud cais i'r DCMS ystyried lefel cydnabyddiaeth yr aelodau anweithredol. Serch hynny, nodwyd i'r DCMS dderbyn digon o geisiadau o safon wrth hysbysebu am Gadeirydd ac aelodau anweithredol i'r Bwrdd yn ddiweddar – a hynny ar sail y gydnabyddiaeth bresennol – ac y byddai'n fanteisiol aros i'r unigolion newydd ymuno â'r Bwrdd cyn cymryd penderfyniad ar y mater hwn.<br><br>**Penderfyniad: I ailystyried y mater yn yr hydref.** | |
| 11. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn.<br><br><u>Archwilio a Risg (a gynhaliwyd 29/01/2025)</u><br><br>Nododd SuD y pwyntiau isod:<br>• Ers y cyfarfod wedi cytuno y gall Lewis Knights o'r NAO barhau i arwain yr archwiliad allanol eleni.<br>• Roedd SuD wedi gofyn am gyfarfod gyda GP, ShW a GE i drafod adolygiad y gofrestr risg.<br><br><u>Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd 17/02/2025</u><br><br>Nododd ShW y pwyntiau isod:<br>• Cynhelir sesiwn strategol ar gyfer aelodau'r Bwrdd Masnachol ym mis Mai. | |
| 12. | **Adroddiadau a gymeradwywyd / nodwyd heb yr angen am drafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r | |

fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.

Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu

**Penderfyniad: I gymeradwyo'r diweddariad i'w gyhoeddi ar y wefan.**

Datganiad o Bolisi Rhaglenni 2025–26 (ar gyfer Ofcom)

**Penderfyniad: I gymeradwyo'r datganiad, ar y ddealltwriaeth y bydd cyfle i Ll fireinio fel y gwêl yn dda.**

Cymeradwyo Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2025–26

**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Cynllun Rhaglenni.**

Diwygiadau i God Ymarfer Aelodau'r Bwrdd

**Penderfyniad: Cymeradwywyd y diwygiadau.**

Adolygu cylchoedd gorchwyl (ac aelodaeth) y Pwyllgorau – gan gynnwys y Pwyllgor Taliadau newydd

**Penderfyniad: Cymeradwywyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Taliadau newydd.**

Cynllun anwytho aelodau'r Bwrdd

**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Cynllun.**

Rhaglen hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Bwrdd

**Penderfyniad: Cymeradwywyd y rhaglen.**

Swydd ddisgrifiad yr Ysgrifennydd

**Penderfyniad: Cymeradwywyd y diwygiadau.**

Strwythur a phrif negeseuon Adroddiad Blynyddol 2024–25

Nodwyd yr adroddiad.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**Penderfyniad: Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 475, a gynhaliwyd ar 23/01/2025.**

Pwyntiau Gweithredu

Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd

Nodwyd yn ffurfiol y penderfyniadau a gymerwyd drwy ohebu ers y cyfarfod diwethaf, sef:

- Penodiad Ll fel Prif Swyddog Cynnwys S4C.

Rhaglen Waith

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf. | |
| 13. | **Unrhyw fater arall, a gwerthuso'r cyfarfod**<br><br>Gwnaeth EM arwain gwerthusiad cryno ar sut oedd y Bwrdd wedi cynnal gwerthoedd y Cod Diwylliant yn ystod y cyfarfod. Diolchwyd i bawb am gynnal trafodaethau da a chadw at amser.<br><br>Nodwyd mai dyma fyddai cyfarfod olaf GB fel Cadeirydd dros dro – diolchwyd iddo am ei wasanaeth.<br><br>Diolchwyd hefyd i DLP wrth i'w chyfnod presennol fel aelod anweithredol ddod i ben. Dyma fyddai wedi bod cyfarfod olaf AG a CJ cyn diwedd eu tymhorau hwythau ar y Bwrdd. | |